



Cynllun Datblygu Lleol 2021 > 2036

Cyngor Caerdydd - Mai 2021

Cynllun Datblygu Lleol Newydd Caerdydd

Nodyn Cyfarwyddyd Ffurflen Cyflwyno Safleoedd Ymgeisiol

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English



www.cdllcaerdydd.co.uk



02920 872087



CDL@caerdydd.gov.uk



Cefndir a Phwrpas y Nodyn Cyfarwyddyd

Paratowyd y Nodyn Cyfarwyddyd hwn ar y cyd â'r Ffurflen Cyflwyno Safleoedd Ymgeisiol i roi cymorth i hyrwyddwyr tir a phartïon eraill â diddordeb mewn perthynas â'r wybodaeth sy'n ofynnol fel rhan o gyflwyno Safleoedd Ymgeisiol.

Mae'r Nodyn Cyfarwyddyd yn rhoi cyngor manwl ar sut i lenwi'r Ffurflen Cyflwyno Safleoedd Ymgeisiol a bydd yn helpu i sicrhau bod partïon â diddordeb yn cynnwys digon o wybodaeth a data i alluogi'r Awdurdod Cynllunio Lleol i wneud asesiad cadarn.

Mae'r Alwad am Safleoedd Ymgeisiol yn dechrau ym mis Mai 2021. Bydd angen cyflwyno pob Cyflwyniad Safle Ymgeisiol ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ategol erbyn 20 Awst 2021. Dylid anfon yr holl wybodaeth at:

E-bost: CDLI@caerdydd.gov.uk

Fel arall, gellir postio copïau caled at:

Tîm Cynllunio Datblygu Cyngor Caerdydd,
Ystafell 219,
Neuadd y Sir,
Glanfa'r Iwerydd,
Caerdydd
CF10 4UW

Ffôn: 029 2087 2087

Os oes gennych unrhyw gwestiwn pellach ar sut i lenwi'r ffurflen gyflwyno neu'r Broses Safleoedd Ymgeisiol yn gyffredinol, mae croeso i chi gysylltu â Thîm Cynllunio Datblygu'r Cyngor a fydd ar gael i'ch cynorthwyo. Gellir cysylltu â swyddogion (yn ddelfrydol) drwy e-bost yn CDLI@caerdydd.gov.uk neu dros y ffôn ar 029 2087 2087.

Yn unol â'r Rheoliadau CDLI, bydd safleoedd a gyflwynir ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd, ac o ganlyniad ni ellir eu trin yn gyfrinachol. Fodd bynnag, ymdrinnir â data mewn modd sy'n cydymffurfio â GDPR.

Noder nad yw cyflwyno safle yn golygu y caiff ei dderbyn a'i ddyrannu i'w ddatblygu gan yr Awdurdod. Bydd pob cyflwyniad safle ymgeisiol ar gael i'w archwilio gan y cyhoedd ar ffurf Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol ac felly ni ellir ei drin yn gyfrinachol.

Ffurflen Cyflwyno Safleoedd Ymgeisiol: Beth i'w gynnwys

Cynhyrchwyd y Nodiadau Cyfarwyddyd canlynol i alluogi hyrwyddwyr i lenwi'r Ffurflen Cyflwyno Safleoedd Ymgeisiol mor gynhwysfawr â phosibl ac mae'n dilyn fformat y ffurflen gyflwyno.

Rhaid cwblhau ffurflen **wahanol** ar gyfer **pob safle** unigol **neu fath o gynnig** ar bob safle. Dylai'r cyflwyniad gynnwys o leiaf:

- Ffurflen Cyflwyno Safleoedd Ymgeisiol gyflawn.
- Cynllun cyfredol ar fap sylfaen yr Arolwg Ordnans, ar raddfa o 1:1250 neu 1:2500. Rhaid amlinellu ffin y safle yn **goch**, gydag unrhyw dir ychwanegol o fewn yr un berchnogaeth wedi'i amlinellu yn **las**. Gellir prynu cynlluniau'n uniongyrchol o wefan yr Arolwg Ordnans, y ceir doler ar ei chyfer isod:
www.ordnancesurvey.co.uk

Os oes cyfleusterau ar gael, byddai'n ddelfrydol pe gellid cyflwyno manylion ffiniau safleoedd ymgeisiol (polygonau coch a glas) hefyd mewn fformat electronig gan ddefnyddio System Gwybodaeth Ddaearyddol addas. Gallai fformatau ffeil addas gynnwys .tab (mapinfo), .shp (ArcGIS) neu .dxf (Autocad) ac ati. Wedi'i blotio i system cyfesurynnau Grid Cenedlaethol Prydain.

ADRAN 1: MANYLION CYSWLLT

Bydd angen i hyrwyddwr y safle gyflwyno'r holl fanylion cyswllt perthnasol ar y Ffurflen Cyflwyno Safleoedd Ymgeisiol. Bydd y dyddiad yn cael ei storio mewn modd sy'n cydymffurfio â GDPR.

Sylwer bod asiant wedi'i enwebu ar y ffurflen - bydd yr holl ohebiaeth yn cael ei hanfon yn uniongyrchol at yr asiant yn hytrach na hyrwyddwr y safle.

ADRAN 2: MANYLION Y SAFLE

Enw a Chyfeiriad y Safle – os oes gan y safle enw sy'n bodoli eisoes, nodwch ef yma. Os na, rhowch enw sy'n gysylltiedig â'r ardal leol, cyfeiriad cyfagos neu ddefnydd blaenorol y safle. Os nad oes gan y safle enw ond ei fod yn gorwedd yn uniongyrchol oddi ar ffordd sydd ag enw, nodwch 'tir i'r (cyfeiriad e.e., i'r gorllewin o) (enw'r ffordd).'

Cynllun Safle – Darparwch gynllun cyfredol ar fap sylfaen yr Arolwg Ordnans ar raddfa o 1:1250 neu 1:2500. Rhaid amlinellu ffin y safle yn **goch**, gydag unrhyw dir ychwanegol o fewn yr un berchnogaeth wedi'i amlinellu'n **las**. Yn ogystal, nodwch Gyfeirnod Grid AO neu rhowch Ddwyreiniadau/Gogleddiadau i nodi lleoliad y safle.

Dangosir Dwyreiniadau a Gogleddiadau ar fap rhyngweithiol y Cyngor, sydd ar gael yn <https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswlydd/Cynllunio/Cynllun-Datblygu->

[Lleol/Pages/default.aspx](#). Unwaith y bydd y safle wedi'i leoli, rhowch y cyrchwr yng nghanol y safle a nodwch y rhifau chwe digid ar gyfer pob un (i'w gweld yn y gornel dde isaf).

Arwynebedd y Safle – Dylid nodi arwynebedd y Safle Ymgeisiol mewn **hectarau**.

Ar gyfer Safleoedd Ymgeisiol preswyl yn benodol, y trothwy safle isaf yw naill ai 10 annedd, neu isafswm maint safle o 0.5 hectar.

Gellir cyflwyno safleoedd llai i'r broses - bydd y rhain yn cael eu cynnwys yn y Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol. **Ni chaiff safleoedd o'r fath, fodd bynnag, eu hystyried yn Safleoedd Ymgeisiol ar gyfer dyraniad penodol.** Caiff y rhain eu hystyried fel rhan o'r adolygiad ffiniau aneddiadau neu'n hap-safleoedd ar raddfa fach neu ddatblygiadau hunan-adeiladu neu nodir y gallent gael eu cyflwyno rywbryd yn ystod cyfnod y cynllun, os yw'n briodol i'w datblygu.

Nid oes trothwyon gofynnol ar gyfer pob cyflwyniad Safle Ymgeisiol defnydd tir arall.

Math o Safle – dylai'r hyrwyddwr nodi a yw'r tir yn **dir llwyd** (tir a ddatblygwyd yn flaenorol), **maes glas** neu **'gymysg'**, cyfuniad o dir llwyd a maes glas. Ceir diffiniad o dir a ddatblygwyd yn flaenorol ym Mharagraffau 3.55 – 3.56 o Argraffiad 11 Polisi Cynllunio Cymru yma: [Polisi cynllunio Cymru | LLYW.CYMRU](#)

Defnydd(iau) Cyfredol - Dylai'r cyflwyniad nodi'r **defnydd tir presennol** o'r safle arfaethedig. Gall defnyddiau o'r fath gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) dai, cyflogaeth, manwerthu, hamdden, defnydd cymunedol ac ati. Os oes gan y safle fwy nag un defnydd tir h.y. defnydd cymysg, nodwch y defnyddiau sy'n bresennol.

Defnydd Arfaethedig – Dylai'r cyflwyniad nodi'r **defnydd arfaethedig** o'r Safle Ymgeisiol neu nodi a yw'r defnydd presennol i'w gadw. Gall defnyddiau tir arfaethedig o'r fath gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) dai, cyflogaeth, manwerthu, hamdden, defnyddiau cymunedol, echdynnu mwynau, ailgylchu, gwastraff, twristiaeth ac ati. Os cynigir defnydd cymysg ar gyfer y safle, nodwch y defnyddiau tir sydd i'w cynnwys, a chyfran a swm y defnyddiau.

Disgrifiad Byr o'r Cynnig – Dylai'r cyflwyniad gynnwys disgrifiad byr o'r cynnig y mae'r Safle Ymgeisiol yn cael ei gyflwyno ar ei gyfer. Dylai cynigion preswyl, er enghraifft, gynnwys nifer a math yr anheddau sydd i'w rhoi ar y safle; dylai cynigion manwerthu gynnwys brasamcan o'r arwynebedd llawr manwerthu net (mewn metrau sgwâr). Dylai cynigion cyflogaeth nodi'r math o ddosbarth defnydd (e.e. B1: swyddfa, B1: arall, B2: diwydiannol a B8: warysau).

ADRAN 3: PERCHNOGAETH

Dylai hyrwyddwr y safle nodi a yw'n berchen ar y safle sy'n cael ei gyflwyno a'r tir sydd ei angen ar gyfer mynediad. Os na, gellir cyflwyno manylion cyswllt unrhyw neu bob perchennog safle, yn amodol ar eu cytundeb. Dylai cynllun ddangos manylion perchnogaeth, lle mae tirfeddianwyr lluosog yn rhan o'r broses. Dylid cynnwys yr holl dirfeddianwyr eraill sy'n gysylltiedig â'r safle ac a oedd yn dymuno cael gwybod yn uniongyrchol am gynnydd y safle hefyd, os nad ydynt yn

dymuno gohebu â ni'n uniongyrchol. Bydd manylion cyswllt pob tirlfeddiannwr yn cael eu storio mewn modd sy'n cydymffurfio â GDPR.

Os nad yw hyrwyddwr y safle yn berchen ar y safle arfaethedig, dylai nodi sut y mae'n bwriadu ei gynnwys yn y CDLI Newydd. Er enghraifft, a yw datblygwr wedi ymrwymo i gytundeb â'r tirlfeddiannwr neu i'r gwrthwyneb? A yw'r tirlfeddiannwr wedi cytuno i ddatblygiad posibl y safle, gydag amodau neu hebddynt? Dylai hyrwyddwr y safle ddarparu tystiolaeth o unrhyw gytundebau a wneir i brofi bod y safle'n gyflawnadwy ac y gellir ystyried ei gynnwys yn y CDLI Newydd.

Dylai hyrwyddwr y safle nodi a yw'r perchennog yn fodlon gwerthu'r tir sy'n cael ei gynnig fel Safle Ymgeisiol, ac a yw'n credu bod cynnydd mewn gwerth, sy'n ddigonol i annog y gwerthiant.

Lle nad hyrwyddwr y safle yw'r tirlfeddiannwr, dylai ddarparu manylion unrhyw ddeialog neu gytundebau a wneir gyda'r tirlfeddiannwr. Os mai'r ateb i'r naill gwestiwn neu'r llall yw 'na,' efallai y bydd hyrwyddwr y safle am nodi sut yr oedd yn bwriadu mynd i'r afael â'r materion.

ADRAN 4: STATWS CYNLLUNIO AC AROLYGON SAFLEOEDD

A yw'r safle wedi'i ddyrannu yn y CDLI presennol – Mae manylion yr holl ddyraniadau yn y CDLI presennol i'w gweld ar fap rhyngweithiol y Cyngor, sydd ar gael yn:

<https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswlydd/Cynllunio/Cynllun-Datblygu-Lleol/Pages/default.aspx>

Statws Cynllunio Cyfredol – Dylai'r cyflwyniad nodi a oes unrhyw ganiatâd cynllunio sy'n bodoli eisoes ar y safle arfaethedig. Dylid darparu manylion llawn, gan gynnwys cyfeirnod y cais. Lle bo hynny'n berthnasol, dylid darparu gwybodaeth i ddangos pam na ddatblygwyd y safle at y defnydd a ganiateir.

Gellir chwilio am geisiadau gan ddefnyddio offeryn chwilio ar-lein y Cyngor, sydd ar gael yn:

<https://planningonline.cardiff.gov.uk/online-applications/>

Hanes Cynllunio'r Safle – Dylai hyrwyddwr y safle nodi a yw'r safle wedi cael caniatâd cynllunio yn flaenorol neu wedi'i wrthod. Os gwrthodwyd caniatâd i'r safle o'r blaen, dylid cynnwys y rhesymau dros wrthod. Os yw safle wedi'i gymeradwyo o'r blaen, dylid darparu manylion llawn gan gynnwys cyfeirnod y cais.

Cais rhagarweiniol – Lle mae cais rhagarweiniol ffurfiol wedi'i wneud, dylid darparu'r cyfeirnod rhagarweiniol, ochr yn ochr â chrynodeb byr o'r cyngor a ddarperir.

Arolygon Safle – Pa arolygon safle sy'n ofynnol neu'n debygol o fod yn ofynnol? A oes unrhyw arolygon blaenorol wedi'u cynnal fel rhan o unrhyw gais blaenorol neu a roddwyd arwydd yn ystod trafodaethau ffurfiol neu anffurfiol gyda'r Cyngor o waith arolygu posibl y byddai angen ei gwblhau i ddatblygu'r safle? e.e. Aseiad o Ganlyniadau Llifogydd.

ADRAN 5: LLEOLIAD A HYGIRCHEDD

Gwasanaethau a chyfleusterau allweddol – rhowch fanylion am agosrwydd y safle arfaethedig at gyfleusterau a gwasanaethau allweddol sy'n bodoli eisoes, e.e. ysgolion, mannau agored, gofal iechyd. Dylid nodi unrhyw wasanaethau a chyfleusterau o fewn radiws o 400m (taith gerdded o 5 munud) ar y ffurflen gyflwyno. Os yn fwy na 400m, bydd angen i hyrwyddwr y safle nodi'r pellter i'r gwasanaethau a'r cyfleusterau agosaf a nodi beth ydyn nhw.

Mannau Cyhoeddus, Gwyrdd ac Agored – mabwysiadwch yr un dull ag ar gyfer gwasanaethau a chyfleusterau allweddol (uchod). Gellir gweld categorïau o Fannau Agored ar fap cynigion CDLI y Cyngor, sydd ar gael yn: <https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswlydd/Cynllunio/Cynllun-Datblygu-Lleol/Pages/default.aspx>

Gellir gweld ardaloedd o Dir Mynediad Agored yma:

<http://lle.gov.wales/Catalogue?land=en&testun=Agor+access&lang=cy>

Canolfannau Manwerthu – mabwysiadwch yr un dull ag ar gyfer gwasanaethau a chyfleusterau allweddol (uchod). Os oes canolfan fanwerthu bresennol, fel y'i diffinnir yn y CDLI presennol ac a ddangosir ar y map cynigion o fewn 400m i'r safle, dylai'r hyrwyddwr nodi pa ganolfan ydyw. Os nad yw'r safle o fewn 400m, dylai'r hyrwyddwr nodi enw'r ganolfan fanwerthu ddynodedig agosaf a'r pellter. Gellir gweld y canolfannau manwerthu diffiniedig ar fap cynigion CDLI y Cyngor sydd ar gael yn: <https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswlydd/Cynllunio/Cynllun-Datblygu-Lleol/Pages/default.aspx>

ADRAN 6: NODWEDDION A CHYD-DESTUN Y SAFLE

Cyfyngiadau Ffisegol – nodwch gyfyngiadau ffisegol ar y safle y bydd angen eu goresgyn. Gall cyfyngiadau o'r fath gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) strwythurau presennol (y mae angen eu clirio cyn datblygu), sefydlogrwydd safleoedd, rhywogaethau goresgynnol e.e. Clymog Japan. Dylid darparu manylion y cyfyngiad, ochr yn ochr ag unrhyw atebion arfaethedig i oresgyn y cyfyngiad(au).

Defnyddiau Cyfagos Gwrthdrawiadol – rhowch fanylion am ddefnyddiau cyfagos gwrthdrawiadol neu 'ddefnyddiau cymydog drwg'. Ar gyfer cynigion preswyl, gall cymydog drwg gynnwys diwydiant amrywiol, llinellau pŵer, piblinellau nwy neu briffyrdd mawr. Gallai defnyddiau gwrthdrawiadol ar gyfer cynigion diwydiant trwm neu chwarel fod yn ardal breswyl sy'n bodoli eisoes.

Dylid hefyd nodi effeithiau'r cynnig, ynghyd ag unrhyw atebion arfaethedig, ar y Ffurflen Gyflwyno.

Cyfyngiadau Allweddol Eraill – nodwch a yw'r safle'n ddarostyngedig i unrhyw gyfyngiadau allweddol eraill (e.e. dynodiadau tirwedd, diogelu mwynau). Gellir cael gwybodaeth am Fap Cynllun Datblygu Lleol rhyngweithiol ar-lein y Cyngor, sydd ar gael yn: <https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswlydd/Cynllunio/Cynllun-Datblygu-Lleol/Pages/default.aspx> a thrwy'r **Map Cyfyngiadau**.

Hawliau Tramwy Cyhoeddus –

Dylai hyrwyddwr y safle nodi a yw'r safle arfaethedig yn cynnwys unrhyw hawliau tramwy cyhoeddus. Mae gwybodaeth am hawliau tramwy cyhoeddus ar gael ar wefan y Cyngor yn: <https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswlydd/Parcio-Ffyrdd-a-Theithio/Hawliau-tramwy-cyhoeddus/ROWIP/Pages/default.aspx>

ADRAN 7: HYGRCHEDD A CHAPASITI PRIFFYRDD

Hygyrchedd Cyfredol – nodwch a yw'r safle'n hygyrch o rwydwaith priffyrdd sy'n bodoli eisoes, a pha radd o briffordd. Os nad yw'n hygyrch ar hyn o bryd, pa seilwaith sydd ei angen i gyflawni'r safle? Dylid cyflwyno cynllun cysylltiedig ar wahân i ddangos sut y gellid sicrhau mynediad. Os oes angen tir trydydd parti i gael mynediad, dylid cynnwys manylion unrhyw gyswllt a wneir â'r tirlfeddiannwr trydydd parti. Dylid cysylltu â'r trydydd parti i gadarnhau unrhyw gytundebau.

Cyllid – Dylai hyrwyddwr y safle nodi a oes ganddo'r cyllid angenrheidiol i ddarparu'r seilwaith sydd ei angen ar y safle. Dylid darparu manylion cyllid i dalu costau seilwaith i'r Cyngor, lle maent ar gael. Lle nad oes trefniadau ar waith, dylai'r tirlfeddiannwr nodi sut y mae'n bwriadu sicrhau cyllid.

Llwybrau Teithio Llesol – Rhowch fanylion am agosrwydd y safle arfaethedig at Llwybrau Teithio Llesol presennol neu arfaethedig. A oes unrhyw Llwybrau Teithio Llesol o fewn 400 metr i'r safle? Nodwch y pellter i'r Llwybr Teithio Llesol agosaf, hyd yn oed os yw'n fwy na 400m. Mae map rhwydwaith Teithio Llesol y Cyngor ar gael yn: <https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswlydd/Parcio-Ffyrdd-a-Theithio/transport-policies-plans/integrated-network-map/Pages/default.aspx>

Trafnidiaeth Gyhoeddus – Rhowch fanylion am agosrwydd y safle arfaethedig at arosfannau bws a gorsafoedd rheilffordd sy'n bodoli eisoes. A oes unrhyw wasanaethau trafndiaeth gyhoeddus o fewn 400 metr? Pa gyfleusterau sydd ger y safleoedd a pha ardaloedd y maent yn eu gwasanaethu? Rhowch wybodaeth am amllder y gwasanaethau bws/trên ac a oes unrhyw rwystrau i gael mynediad i'r drafnidiaeth gyhoeddus, e.e. diffyg llwybrau troed. Nodwch y pellter i'r cyfleusterau trafndiaeth gyhoeddus agosaf, os yn fwy na 400m, a nodwch pa gyfleusterau ydyn nhw.

ADRAN 8: EFFAITH AR Y DIRWEDD A'R AMGYLCHEDD

Halogiad – Os oes perygl bod unrhyw ran o'r safle arfaethedig wedi'i halogi, dylid darparu manylion y ffynhonnell halogi bosibl. Gall tir fod wedi'i halogi am sawl rheswm, gan gynnwys asbestos, metelau trwm, nwyon, sylweddau ymbelydrol ac ati ond heb fod yn gyfyngedig i'r pethau hyn. Diffinnir tir yn gyfreithiol fel tir halogedig lle mae sylweddau'n achosi neu le y gallai sylweddau fod yn achosi niwed sylweddol i bobl, eiddo neu rywogaethau a warchodir, llygredd sylweddol mewn dŵr wyneb neu ddŵr daear a niwed i bobl oherwydd ymbelydredd.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn:

<https://www.srs.wales/cy/Environmental-Health/Noise-and-Air-Pollution/Contaminated-Land.aspx>

Ardal Gadwraeth – A yw'r safle o fewn Ardal Gadwraeth ddynodedig. Mae gwybodaeth ar gael yn:

<https://www.caerdydd.gov.uk/CYM/preswlydd/Cynllunio/Cadwr-Amgylchedd-Hanesyddol/Pages/Cadwr-Amgylchedd-Hanesyddol.aspx>

a thrwy'r **Map Cyfyngiadau**

Ased Treftadaeth – A yw'r safle'n effeithio ar ased treftadaeth sy'n bodoli eisoes megis adeilad rhestredig? Mae'r wybodaeth hon ar gael yn:

<http://ishare.cardiff.gov.uk/mycardiff.aspx?layers=ListedBuildings&startEasting=315000&startNorthing=179000&startZoom=50000>

Tir Amaethyddol – A fyddai'r safle'n arwain at golli tir amaethyddol gradd 1, 2 neu 3a? Dylid nodi dosbarthiad y tir amaethyddol sydd i'w golli ar y Ffurflen Cyflwyno Safleoedd Ymgeisiol. Dylai hyrwyddwr y safle hefyd nodi a yw'r tir yn cael ei ddefnyddio at ddibenion amaethyddol ar hyn o bryd, ynghyd â faint o dir amaethyddol sy'n debygol o gael ei golli. Ceir rhagor o wybodaeth am ddosbarthiadau tir amaethyddol ar wefan Llywodraeth Cymru yn:

[Categoriâu tir amaethyddol: y map rhagweld | LLYW.CYMRU](#)

Lletem Werdd/Ardal Tirwedd Arbennig – A yw'r safle'n dod o fewn Lletem Werdd neu Ardal Tirwedd Arbennig yn y Cynllun Datblygu Lleol presennol ac a ddangosir ar y map cynigion? Gellir gweld y Lletem Werdd a'r Ardal Tirwedd Arbennig ar fap cynigion CDLI y Cyngor sydd ar gael yn:

<https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswlydd/Cynllunio/Cynllun-Datblygu-Lleol/Pages/default.aspx>

Seilwaith Gwyrdd/Cysylltedd Cynefinoedd – Dylai hyrwyddwr y safle nodi a yw'n bwriadu cyfrannu at y rhwydwaith o seilwaith gwyrdd neu gysylltedd cynefinoedd drwy ddarparu tir at ddibenion o'r fath, fel rhan o unrhyw ddatblygiad o'r Safle Ymgeisiol. Os felly, dylai hyrwyddwr y safle roi manylion ei fwriad.

Dynodiadau Amgylcheddol Cenedlaethol, Rhanbarthol neu Leol – Nodwch a yw'r safle'n rhan o unrhyw un o'r canlynol: Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA); Safle o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur (SoBCN); Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA); Safle Daearegol Pwysig Rhanbarthol (SDPRh); Gwarchodfa Natur Leol (GNL); Parc neu Ardd Hanesyddol; neu a oes Gorchymyn Diogelu Coed (GDC) unrhyw le o fewn ffin llinell goch y safle. Dylai hyrwyddwr y safle dicio popeth sy'n berthnasol ar y Ffurflen Cyflwyno Safleoedd Ymgeisiol.

Gellir defnyddio'r **Map Cyfyngiadau** i benderfynu a yw unrhyw ddynodiadau o'r fath yn effeithio ar eich Safleoedd Ymgeisiol.

ADRAN 9: PERYGL LLIFOGYDD

Dylai hyrwyddwr y safle nodi a yw'r safle'n dod (yn gyfan gwbl neu'n rhannol) o fewn ardal perygl llifogydd C1 neu C2 (Ardal 3 yn y TAN15 newydd), neu o fewn ardal perygl llifogydd dŵr wyneb a chwrs dŵr cyffredin uchel neu ganolig (Ardal 3 yn y TAN15 newydd). Mae'r wybodaeth briodol ar gael yn: <https://naturalresources.wales/evidence-and-data/maps/long-term-flood-risk/?lang=cy>

Yn unol â pholisi cynllunio cenedlaethol, dylid cyfeirio datblygiadau newydd i ffwrdd o ardaloedd llifogydd C1 a C2, tuag at dir addas o fewn Ardal A, neu fel arall Ardal B (lle mae llifogydd afon yn llai o broblem). Ni chaniateir datblygiad bregus iawn (fel un preswyl) neu Wasanaethau Brys o fewn ardal perygl llifogydd C2 ac felly ni chaiff ei ddyrannu oddi mewn iddi. Rhaid i Safleoedd Ymgeisiol eraill o fewn ardal perygl llifogydd C1 neu C2 brofi eu bod yn dderbyniol mewn egwyddor, felly rhaid iddynt gael eu hategu gan Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd (AGLI). Bydd yr AGLI yn nodi canlyniadau'r datblygiad a sut y gellir ei reoli i lefel dderbyniol, heb achosi problemau llifogydd pellach na chael effaith andwyol mewn mannau eraill.

Mae Nodyn Cyngor Technegol 15 ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn:

[Nodyn cyngor technegol \(TAN\) 15: datblygu a pherygl llifogydd | LLYW.CYMRU](#)

Nid yw'r Cyngor yn gyfrifol am asesu derbynioldeb unrhyw Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd a gyflwynir. Dylai AGLlau fod yn dderbyniol i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), a fydd yn rhan o'r broses Asesu Safleoedd Ymgeisiol. Gall y Cyngor hefyd, ar unrhyw adeg, ofyn am ragor o wybodaeth neu dystiolaeth yn ystod y broses Safle Ymgeisiol, yn enwedig lle mae ymatebion i'r ymgynghoriad yn codi materion fel llifogydd llanw, afonol neu ddŵr wyneb ac effeithiau cysylltiedig newid yn yr hinsawdd.

Dylid nodi bod y safiad ar berygl llifogydd yn esblygu ar hyn o bryd ac y disgwylir i TAN15 gael ei ddiweddarau'n fuan. Bydd y gwaith o asesu safleoedd yn cael ei wneud yn unol â'r polisi mabwysiedig diweddaraf.

ADRAN 10: ARDALOEDD DIOGELU MWYNAU A CHLUSTOGFEYDD

Dylai hyrwyddwr y safle nodi a yw'r safle'n dod o fewn ardal diogelu mwynau neu glustogfa. Os felly, dylid nodi enw neu gyfeiriad yr ardal diogelu mwynau neu'r glustogfa ar y Ffurflen Cyflwyno Safleoedd Ymgeisiol. Gellir gweld yr ardaloedd diogelu mwynau a'r clustogfeydd ar **Fap Cynigion y CDLI** mabwysiedig.

Mae **Map Cynigion y CDLI** mabwysiedig ar gael yma:

<https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswlydd/Cynllunio/Cynllun-Datblygu-Lleol/Pages/default.aspx>

ADRAN 11: CAPASITI SEILWAITH

Dylid ticio'r blwch perthnasol i ddangos a yw'r safle'n cael ei wasanaethu gan y cyfleustodau a restrir. Dylid nodi unrhyw fath arall o wasanaeth yn y blwch a ddarperir. Os na fydd darpariaeth cyfleustodau ar gael ar y safle, dylai hyrwyddwr y safle egluro sut y cyflawnir mynediad at wasanaethau o'r fath.

ADRAN 12: CYFLAWNADWYEDD A HYFYWEDD

Bwriad Tirfeddiannwr - Os mai hyrwyddwr y safle yw'r tirfeddiannwr presennol, dylid nodi ai ei fwriad ef/hi yw datblygu'r safle. Os na, dylid darparu manylion trafodaethau gydag unrhyw ddatblygwyr.

Cyllid – Dylid darparu manylion cyllid i dalu'r holl gostau datblygu i'r Cyngor, lle maent ar gael. Lle nad oes trefniadau wedi'u gwneud, dylai'r tirfeddiannwr nodi sut y mae'n bwriadu sicrhau cyllid (e.e. benthyciad banc, cyllid grant ac ati).

Trafodaethau gyda Darpar Ddatblygwyr – rhwch fanylion unrhyw drafodaethau sydd wedi digwydd gyda darpar ddatblygwyr.

Datblygwr - Dylai hyrwyddwr y safle nodi a oes datblygwr y mae wedi ymrwymo i gytundeb opsiynau neu ryw gytundeb contractiol arall gydag ef/hi. Os felly, dylid rhoi manylion i'r Cyngor. Os na, dylai hyrwyddwr y safle nodi pryd y mae'n debygol y bydd datblygwyr yn dod yn rhan o'r broses.

Rhwymedigaethau Polisi – Dylai hyrwyddwr y safle roi syniad a ellir cyflawni'r safle tra'n darparu ar gyfer gofynion polisi llawn, mewn perthynas â rhwymedigaethau Adran 106. Mae'r gofynion polisi presennol i'w gweld yng Nghannllaw Cynllunio Atodol y Cyngor sydd ar gael yn:

[https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswlydd/Cynllunio/Polisi-cynllunio/Canllawiau-Cynllunio-Ategol/Documents/Cardiff%20Planning%20Obligations%20SPG%20-%20Edition%201%20\(26th%20January%202017%20Welsh\).pdf](https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswlydd/Cynllunio/Polisi-cynllunio/Canllawiau-Cynllunio-Ategol/Documents/Cardiff%20Planning%20Obligations%20SPG%20-%20Edition%201%20(26th%20January%202017%20Welsh).pdf)

Systemau Draenio Cynaliadwy - Byddai materion fel y dopograffeg (e.e. A yw'r safle ar lethr o fwy nag 1:20), amodau tir a defnydd tir blaenorol o'r safle (tir halogedig, tir â wyneb caled), bwrdd dŵr daear uchel, ardaloedd amgylcheddol sensitif a'r cynnig datblygu ei hun yn cael effaith ar p'un a ellir defnyddio SDCau ar y safle, neu'r opsiynau sydd ar gael ar eu cyfer. Byddai cyfyngiadau lluosog yn cael mwy o effaith. Dylid nodi'r nodweddion safle cyffredinol hyn yn ystod y cam cyflwyno.

Byddai ymgorffori SDCau yn cael ei ystyried ar y Cam Hyfywedd/Cyflawnadwyedd ar y cyd â Swyddogion y Cyngor sy'n cynnal swyddogaeth y Corff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn:

<https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswlydd/Cynllunio/draenio-cynaliadwy/Pages/default.aspx>

Hyfywedd – Dylid nodi, ar ôl ystyried popeth, a ystyrir bod y safle'n hyfyw i'w ddatblygu. Cofiwch y bydd angen asesiad hyfywedd llawn cyn dyrannu safle. Ystyrir hyn ymhellach yn y Fethodoleg Safleoedd Ymgeisiol.

Asesiad Hyfywedd – Dylai hyrwyddwr y safle nodi a oes asesiad hyfywedd wedi'i gynnal ar y safle arfaethedig a'i gynllun cysylltiedig. Os felly, dylid cyflwyno copi o'r ffurflen asesu i'r Cyngor gyda'r Ffurflen Cyflwyno Safleoedd Ymgeisiol.

Argaeledd Safle – Os oes gan y safle ganiatâd cynllunio ar waith ar hyn o bryd, a fyddai modd datblygu'r safle ar unwaith? Bydd angen i hyrwyddwr y safle ddarparu manylion unrhyw rwystrau a fyddai'n atal y safle rhag cael ei gyflwyno ar unwaith, gan dybio bod yr holl ganiatadau angenrheidiol wedi'u rhoi.

Cyfamodau Cyfyngol, Cytundebau Cyfreithiol neu Werthoedd Adfachu – Nodwch ar y Ffurflen Cyflwyno Safleoedd Ymgeisiol a oes gan y safle unrhyw gyfamodau hysbys neu gyfyngiadau eraill ar unrhyw ran o'r tir o fewn ffin y safle. Os oes unrhyw gyfyngiadau o'r fath wedi'u gosod ar y tir, dylid rhoi manylion i'r Cyngor. Dylai hyrwyddwr y safle hefyd nodi sut y bydd y cyfyngiad yn effeithio ar y cynnig a chynnig unrhyw atebion i oresgyn y cyfyngiad.

Amcangyfrif o'r Amserlenni – Nodwch (yn y tabl a ddarperir yn y Ffurflen Cyflwyno Safleoedd Ymgeisiol) amserlen fras ar gyfer cyflwyno eich Safle Ymgeisiol. Ar gyfer cynigion preswyl yn unig, rhowch syniad o ba bryd y gall datblygiadau ddechrau a brasamcan o nifer y tai sydd i'w hadeiladu bob blwyddyn yn unol â'ch amserlen ddatblygu arfaethedig.

GWYBODAETH YCHWANEGOL

Rhowch unrhyw wybodaeth berthnasol bellach nad yw wedi'i chynnwys mewn cwestiynau blaenorol ond sy'n cefnogi eich cyflwyniad.

Er mwyn sicrhau y gall pob rhan o'r gymdeithas fod yn rhan o'r broses safleoedd ymgeisiol, mae Cymorth Cynllunio Cymru wedi cyhoeddi canllawiau i Sipsiwn a Theithwyr, gan gynnwys Siewmyn Teithiol, ar sut i gymryd rhan yn y broses gynllunio i gynllunio'n briodol ar gyfer eu hanghenion. (Dyma ddolen i'r canllawiau a'r fideo cysylltiedig: <https://planningaidwales.org.uk/cynllunio-ar-gyfer-safleoedd-carafanau-sipsiwn-a-theithwyr/?lang=cy>). Mae Cymorth Cynllunio Cymru (CCC) hefyd wedi cyhoeddi canllawiau ar ddefnyddio a pharatoi Cynlluniau Cynefin a allai fod yn adnodd defnyddiol i gymunedau a Chynghorau Tref <http://www.placeplans.org.uk/cy/>

Hyrwyddwr y safle yn unig sy'n gyfrifol am wneud gwaith technegol perthnasol i gefnogi cynnwys safle yn y cynllun, gan gynnwys yr holl gostau ariannol.

Mae croeso i chi gyflwyno unrhyw dystiolaeth ategol atodol gyda'ch Safle Ymgeisiol. Dylid nodi, lle rydych wedi nodi nad yw eich safle'n cyd-fynd yn llwyr â'r meini prawf cyflwyno ac asesu, y dylid cyflwyno dystiolaeth bellach i ddangos sut y gellir goresgyn y diffygion a'r cyfyngiadau hyn. Gall y Cyngor hefyd geisio rhagor o wybodaeth os penderfynir bod hynny'n angenrheidiol ac yn briodol i alluogi'r safle i gael ei ystyried mewn camau pellach o'r broses asesu Safleoedd Ymgeisiol. Nodir y gofynion hyn, a'r rhai sy'n ymwneud â lefel manylder y dystiolaeth ategol

sy'n ofynnol (yn enwedig ar gyfer dangos tystiolaeth o gyflawnadwyedd a hyfywedd eich safle(oedd)), yn y Fethodoleg Safleoedd Ymgeisiol.

Dylid nodi nad yw cyflwyno Safleoedd Ymgeisiol, na'u derbyn fel rhai a wnaed yn briodol, yn awgrymu bod safle'n addas i'w gynnwys yn y cynllun.